YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School

# Prosbectws Cyfnod Allweddol 4

## Key Stage 4 Prospectus

## 2021-2023

# Ysgol Gyfun Aberaeron

Stryd y Fro, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DT
Ffôn / phone: 01545 570217
Ffacs / Fax: 01545 570183

Ebost: swyddfa@ygaberaeron.org.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â / *For further information contact:*

| | |
|---|---|
| **Pennaeth**<br>**Headteacher** | **Mr Owain Jones** |

| | |
|---|---|
| **Dirprwy Benaeth**<br>***Deputy Headteacher*** | **Mr Euros Lloyd** |
| **Pennaethiaid Cynorthwyol**<br>***Assistant Headteachers*** | **Mrs Lowri Gregson**<br>**Miss Siân Evans** |

Rhagarweiniad

# Beth yw T.G.A.U?

## Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Amrediad graddau TGAU yw **A* i G**; ein dyhead yw bod pob un yn llwyddo i gael o leiaf 5 gradd C. Mae'r mwyafrif o gyrsiau TGAU yn gofyn i'r disgybl gwblhau Asesiad o dan Reolaeth yn yr ysgol. Rhaid hefyd sefyll o leiaf un papur arholiad allanol. Bydd yr arholiadau nid yn unig yn profi'ch cof a'ch gallu i gyflwyno ffeithiau ond hefyd yn profi'ch dealltwriaeth, eich sgiliau ymarferol a'ch gallu i gymhwyso gwybodaeth. Mae cwrs TGAU yn gwrs lefel 2.

## Arholiadau ac Asesiadau dan Reolaeth

Er y bydd yr arholiadau allanol ar ddiwedd blwyddyn 11 yn bwysig, mae'r gwaith a wneir a'r hyn a ddysgir yn ystod y ddwy flynedd yn bwysig hefyd. Ceir dwy haen a asesir yn allanol o safbwynt cynnwys yr unedau, sef: **Uwch (yn targedu graddau A*-D)** a **Sylfaenol (yn targedu graddau C-G)**; nid oes haenau ar gyfer unedau â asesir yn fewnol; mewn ambell pwnc TGAU mae'r arholiadau allanol yn ddi-haen hefyd. Yn ddibynnol ar y pwnc, bydd arholiadau modiwl allanol ym mlwyddyn 10 yn ogystal â blwyddyn 11 a fydd yn cyfrannu at eich gradd derfynol. Mae asesiad dan reolaeth wedi disodli'r gwaith cwrs ar gyfer y TGAU gydag asesiad mewnol; mae'n cyfrif rhwng 20% a 60% o rhai cymwysterau. Diffiniwyd y lefelau o reolaeth gan reolyddion yr holl gyrff dyfarnu. Mae'n bwysicach nag erioed i weithio'n gyson a chydwybodol dros y ddwy flynedd nesaf.

## Beth yw TLM?

Cwrs yw'r Tystysgrif Lefel Mynediad a luniwyd gan CBAC i baratoi disgyblion ar gyfer y byd gwaith. Mae'n briodol i'r rhai nad ydynt yn perfformio'n dda mewn arholiadau. Bydd rhai disgyblion yn cyfuno rhai pynciau TLM gyda rhai pynciau TGAU. Mae tua 80% o'r asesiad wedi'i selio ar waith dosbarth, gwaith llafar, prosiectau a gwaith ymarferol. Yn ddiweddar, mae cwrs tebyg iawn i TLM wedi ei gyflwyno gan CBAC o'r enw Tystysgrif Llwybrau Mynediad (TLlM) ble nad oes arholiad allanol o gwbl.

Mae bob cwrs TGAU a TLM / TLlM yn ysgol Aberaeron yn dilyn cyrsiau'r bwrdd arholi Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Os am fwy o wybodaeth ewch ar www.cbac.co.uk

## Beth yw BTEC ?

Rhagarweiniad

Mae cyrsiau BTEC yn gymwysterau cysylltiedig â gwaith addas ar gyfer amryw eang o fyfyrwyr. Maen nhw'n darparu dull ymarferol o'r byd go iawn i ddysgu heb aberthu unrhyw ardal o'r theori hanfodol y pwnc. Gellir eu cymryd ochr wrth ochr, neu yn lle, cyrsiau TGAU. O fis Medi 2014 byddwn yn cyflwyno cenhedlaeth newydd o lefel Wobr BTEC. Bydd pob cwrs yn gyfwerth â TGAU sengl, yn cael elfen harholi gwerth 25% ynghyd â lleiafswm o ddwy elfen arall a fydd yn cael eu hasesu yn yr ysgol.

Mae'n bosibl cyrraedd safon tystysgrifau **Pasio** (Gradd C), **Teilyngdod** (Gradd B) neu **Ragoriaeth** (Gradd A) o fewn yr uchod. (Os am fwy o wybodaeth ewch ar http://www.edexcel.com/quals/firsts2012/Pages/default.aspx)

# What are GCSE's?

Introduction

## General Certificate of Secondary Education

GCSE grades range from A* through to G and our aspiration is that everyone achieves at least 5 Grade C's. The majority of GCSE courses require students to complete a Controlled Assessed Task. They will also have to sit at least one external examination paper. The examinations not only test your memory and ability to present facts, they also test your understanding, practical skills and your ability to apply your knowledge.
GCSE courses are level 2 courses.

## Examinations and Controlled Assessments

Though the external examinations at the end of the two years are very important, the work you do and learn over the two years is important too. Externally assessed units are tiered in terms of content at two levels: **Higher (targeting grades A*-D)** and **Foundation (targeting grades C-G)**; internally assessed units are untiered; in some GCSE subjects the external examinations are also untiered. Depending on the subject, there will be external module examinations in year 10 as well as in year 11, which will contribute to the final grade. Controlled Assessment has replaced coursework for GCSE's with internal assessment; it accounts from between 20% and 60% of some qualification. The levels of control have been defined by the regulators for all awarding bodies. It is therefore as important as ever to work consistently and conscientiously over the next two years.

## What is an ELC?

The Entry Level Certificate courses, designed by the WJEC, prepare pupils for the world of work. It is suited to those who do not perform well in examinations. Pupils can combine ELC subjects with some other GCSE courses. Usually 80% of the assessment is based on class work, oral work, projects and practical work. Recently, a similar course has been introduced by the WJEC, called the Entry Pathway Certificate (EPC) where there isn't an external examination as part of the course.

WJEC CBAC

All the GCSE and ELC / EPC courses in Aberaeron school follow the Welsh Joint Education Committee examination board courses. If you want more information, go to www.wjec.co.uk

## What is BTEC ?

BTECs are **work-related qualifications** suitable for a wide range of students. They provide a **practical, real-world approach** to learning without sacrificing any of the essential subject theory. They can be taken **alongside, or in place of, GCSEs** . From September 2014 we will introduce the new generation of Award level BTEC's. Each course will be equivalent to a single GCSE, have an examinable element worth 25% plus a minimum of two other elements that will be assessed in school.

Within each of the above BTEC Award levels, it is possible for a student to achieve a **Pass** (Grade C), **Merit** (Grade B) or **Distinction** (Grade A). (If you need further information, go to http://www.edexcel.com/quals/firsts2012/Pages/default.aspx)

Introduction

Rhagarweiniad

# Cwricwlwm Gorfodol - Y Pynciau Craidd

Ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2015 ymlaen bydd rhaid i bob disgybl astudio'r pynciau gorfodol canlynol i'r lefelau â argymhellir gan yr athrawon pwnc:

- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Bagloriaeth Cymru

Mae'r pynciau craidd wedi'u cynllunio i roi sylfaen mewn cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd.

Hefyd, bydd bob disgybl yn dilyn cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol a fydd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Chwaraeon
- Addysg Gorfforol
- Addysg Grefyddol
- Gyrfaoedd (yn cynnwys wythnos o brofiad gwaith ym mlwyddyn 10)
- Sgiliau bywyd ac Addysg Iechyd
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang (ADCDF)

Rhagarweiniad

**Ffeil Cynnydd**: Fe fydd pob disgybl yn cael "proffil" wrth adael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11. Llyfryn yw hwn sydd yn cofnodi pob agwedd o weithgaredd y disgybl yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

# Compulsory Curriculum - The Core Subjects

From the academic year 2015 all the pupils will have to study the following compulsory subjects to the levels recommended by the subject teachers:

- Welsh
- English
- Mathematics
- Science
- Welsh Baccalaureate

The core subjects are designed to give every pupil a grounding in communication, literacy and numeracy.

Also, all pupils will follow a Personal and Social Education course that will include the following subject areas:

- Games
- Physical Education
- Religious Education
- Careers (including a week's work experience in year 10)
- Life skills and Health Education
- Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC)

**Progress File**: Every pupil will receive a "profile" on leaving the school at the end of year 11. This is a booklet which records every aspect of the pupil's activity both in school and outside in the community.

Introduction

Dewisiadau

# Llwybrau Dysgu 14-19

## Dull gwahanol o ddysgu

Mae'n seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y dylai ein pobl ifanc gael pob cyfle i wireddu eu potensial a gadael ysgol wedi'u paratoi'n well ar gyfer gwaith a bywyd.

Meddylia amdanat ti a dy ffrindiau – mae pob un ohonoch chi'n unigryw. Rydych chi'n ymddwyn yn wahanol, yn meddwl yn wahanol ac mae gennych chi dalentau, chwaethau ac uchelgeisiau gwahanol. Felly, pam bod rhaid i chi ddysgu yn yr un ffordd? Mae'n gwneud mwy o synnwyr i roi cyfle i ti ddewis cymysgedd o ddewisiadau yr wyt ti'n mwynhau eu gwneud.

Dylet ti gael cyfleoedd i ddysgu pynciau galwedigaethol megis peirianneg, amaethyddiaeth, trin gwallt a gofal plant er enghraifft. Rydym yn newid y ffordd rwyt ti'n dysgu drwy gyflwyno Llwybrau Dysgu ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a19 oed. Mae'n rhoi cyfle gwych i ti wneud y gorau o'th ddoniau ac i gyflawni dy uchelgeisiau.

### Meddylia ble'r hoffet ti fod ymhen ychydig flynyddoedd:

- Hoffet ti fynd i'r coleg neu'r brifysgol ar ôl i ti adael yr ysgol?
- Beth am y tymor hwy? Pa yrfa yr hoffet ti ei chael?

Drwy ddilyn dy lwybr dysgu dy hun, byddi di'n gallu dysgu'r sgiliau sydd fwyaf tebygol o dy helpu i gyflawni dy uchelgeisiau a llwyddo yn yr yrfa o'th ddewis. Mae'n bwysig bod y sgiliau byddi'n dysgu yn dy helpu i fod yn llwyddiannus ym myd gwaith.

### Dewisiadau

Wrth i ti fod yn yr ysgol byddi'n elwa o gymysgedd o weithgareddau a chyrsiau. Mae'r rhain yn datblygu dy sgiliau, dy wybodaeth a'th ddealltwriaeth o'r byd ac yn pwysleisio dy sgiliau personol yn ogystal â'th raddau arholiad. Byddi di'n dal i astudio pynciau pwysig megis Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg gan fod y rhain yn hanfodol i unrhyw yrfa. Ond bydd gennyt ti well amrywiaeth o ddewisiadau gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Mae gan bynciau galwedigaethol cyfatebiaeth i gyrsiau mwy traddodiadol pan eu cymerir; felly fe gewch y cyfle i ennill cymysgedd o gymwysterau academaidd a galwedigaethol drwy ddilyn ystod eang o bynciau.

Cofia fod mwy i fywyd na dim ond cymwysterau. Mae hefyd yn ymwneud â datblygu sgiliau sy'n dy helpu di i fod yn fwy hyderus, hapus a bodlon. Cynigir cyfleoedd llai ffurfiol i'th helpu i ddatblygu dy sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a gweithio mewn tîm. Byddi di'n cael cydnabyddiaeth mewn amrywiol ffyrdd a werthfawrogir gan brifysgolion, colegau a chyflogwyr. Os wyt yn anfodlon gyda'r dewisiadau rwyt ti wedi'u gwneud, hwyrach y galli newid rhai o'th ddewisiadau. Pa bynnag lwybr y cymeri, ti sydd biau'r dewis!

Dewisiadau

# Learning Pathways 14-19

## A different approach to learning

It is based on the fundamental principle that our young people should be given every opportunity to realise their potential and leave school better prepared for life and work.

Think about you and your friends – you're all unique. You act differently, think differently and you all have different talents, tastes, and ambitions. So why do you all have to learn the same way? It makes more sense to give you the opportunity to choose a mix of options that you enjoy doing.

You should have opportunities to learn hands-on vocational subjects like engineering, agriculture, hairdressing or child care, for example. We are changing the way you learn by introducing Learning Pathways for 14 -19 year olds. It gives you a fantastic opportunity to make the most of your talents and to achieve your ambitions.

### Think of where you want to be in a few years time:

- Do you want to go to college or university once you leave school?
- What about the longer term? What sort of career do you want?

By following your own learning pathway, you'll be able to learn the skills most likely to help you achieve your ambitions and succeed in your chosen career. It is important that the skills you learn help you be successful in your future life.

### Choices

While at school you will benefit from a mix of activities and courses. These develop your skills, knowledge and understanding of the world and emphasise your personal skills as well as your grades. You'll still do the vital subjects like Welsh, English, Science, Mathematics and English as these are essential to any career. But you will have a greater variety of options including vocational courses. Vocational courses have parity when compared with more traditional courses; therefore you have the chance to gain a mix of vocational and academic qualifications by studying a wide range of subjects.

Remember that getting on in life isn't just about qualifications. It's also about developing skills that help you become more confident, happy, and fulfilled. There will be less formal opportunities on offer to help you to develop your social, communication and team working skills. You will gain recognition in a range of ways that will be valued by universities, colleges and employers. If you're unhappy about the choices you've made, you may be able to change some of your options. Whatever route you take, it's your choice!

Dewisiadau

# Cymorth i chi ddysgu

Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cynnig dewis gwell i ti o ran beth, a sut, rwyt ti'n dysgu. Gyda dewisiadau ychwanegol, daw mwy o gyfrifoldeb. Bydd yr holl gymorth a chyngor sydd eu hangen arnat ti ar gael. Bydd dy athrawon, y rhwydwaith anogwyr dysgu a'r cynghorwyr gyrfaoedd yno i ti. Bydd Anogwyr Dysgu'n cynnig cyngor ac anogaeth drwy gydol dy addysg. Mae'n bwysig i ti gael mynediad rhwydd at gefnogaeth er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a allai dy rwystro rhag cwblhau dy ddysgu. Os byddi di'n newid dy feddwl ynghylch yr hyn yr hoffet ei wneud, galli di drafod hyn gyda'th anogwr dysgu. Galli di drafod materion eraill gyda'th anogwr dysgu ac aelodau eraill o dîm cefnogaeth bersonol yr ysgol eraill hefyd:

- bwlio
- iechyd
- perthynas bersonol ag eraill
- materion cyfrinachol eraill

## Sgiliau Byw

Mae'r rhain i gyd yn sgiliau a fydd yn cyfri o'th blaid. Dyna pam y cei dy annog i gynnwys cyrsiau llai ffurfiol i ddatblygu dy sgiliau personol, sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a gweithio mewn tîm. Gall y rhain arwain at gymwysterau "heb fod yn ffurfiol" tebyg gwobrwyon y Ffermwyr Ifanc a chynllun Gwobr Dug Caeredin ac ati neu weithgareddau "Anffurfiol" tebyg i waith gwirfoddol. Rydym am dy weld yn gadael yr ysgol yn unigolyn hyderus, yn hapus ac yn fodlon, yn gallu mynegi dy deimladau, dy syniadau a'th safbwyntiau'n huawdl. Os byddi di'n gallu teimlo'n braf yng nghwmni eraill, byddi'n gallu symud ymlaen yn dy fywyd.

## Ymestyn Hawliau

Ymestyn Hawliau yw ymgyrch flaengar Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor a'r gred sylfaenol y dylai pob unigolyn ifanc yng Nghymru gael yr un hawliau, haeddiant a chyfleoedd mewn bywyd. Dim ond ffordd arall yw'r term 'Ymestyn Hawliau' o gyfeirio at bopeth y mae gennyt ti fel unigolyn ifanc yr hawl iddo, megis:

- yr hawl i fod yn unigolyn
- parch gan eraill
- y gallu i fynegi dy farn a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnat ti
- mynediad at ofal iechyd o ansawdd da
- bod â'r hawl i fyw mewn cartref diogel sy'n llawn gofal mewn cymuned ddiogel sy'n cynnig cyfleusterau ac amwynderau lleol da
- a'r hawl i gael addysg dda, fel dy fod yn cael cyfle i ddatblygu dy sgiliau a gwireddu dy botensial.

Cyfeiriwch hefyd os gwelwch yn dda at "Datganiad o Ymrwymiad i Ddysgwyr Ceredigion" Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14 – 19 Ceredigion a dosbarthwyd i bob myfyriwr Blwyddyn 9.

Dewisiadau

# Your Learning Support

Learning Pathways 14 -19 gives you a greater choice in what, and how, you learn. With extra options comes extra responsibility. All the help and advice you need will be available. Your teachers, the learning coach network and careers advisors will be able to assist you.
Learning Coaches will offer advice and encouragement throughout your education. It is important that you can easily access support to tackle problems that might get in the way of you completing your learning. If you change your mind about what you want to do, you can discuss this with your learning coach. You can also talk to your learning coach and other members of the school's personal support team about other issues:

- bullying
- health
- personal relationships
- other confidential matters

## Life Skills

These are all skills that will count in your favour. That's why you will be encouraged to build-in less formal courses to develop your personal, social, communication and team working skills. These may lead to non-formal qualifications such as the Young Farmers awards and the Duke of Edinburgh award scheme etc. or informal activities such as voluntary work. The aim is for you to leave school as a confident, happy and fulfilled person, able to eloquently express your thoughts, ideas and opinions. By becoming socially at ease with others and you will get on in life.

## Extending Entitlement

Extending Entitlement is the Welsh Assembly Government's flagship campaign for young people. It is based on the basic principal and belief that every young person in Wales should have the same rights, entitlements and opportunities in life. The term 'Extending Entitlement' is just another way of referring to everything that you as a young person have a right to, such as:

- the right to be an individual
- the respect of others
- the ability to express your views and influence decisions that affect you
- access to good healthcare
- being entitled to live in a caring and secure home within a safe community that offers good local facilities and amenities
- and the right to a good education, so that you have the opportunity to develop your skills and fulfill your potential.

Please refer also to the Ceredigion's 14 -19 Learning Pathways "Statement of Commitment to Ceredigion Learners" issued to all Year 9 students.

Bagloriaeth

# Beth yw'r Fagloriaeth Cymru Newydd?

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yw darparu cyfrwng i rai 14-16 oed atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr ôl-16 a darpar gyflogwyr.

Drwy Fagloriaeth Cymru, bydd y dysgwyr yn codi eu lefelau sgiliau a'u hyder, gan eu galluogi a'u grymuso i ymgymryd â'u rôl fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar o fewn cymdeithas amrywiol. Ar y cyd â'r broses o feithrin sgiliau a thrwy'r broses honno, mae Bagloriaeth Cymru yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned maent yn byw ynddi ac ymwybyddiaeth o faterion, digwyddiadau a phersbectifau byd-eang.

## Beth ydy cynnwys y cwrs?

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar **Dystysgrif Her Sgiliau** ynghyd â **Chymwysterau Ategol**. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r **Dystysgrif Her Sgiliau** yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Bydd canlyniadau cyfunol y pedair cydran yn penderfynu p'un a gaiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei dyfarnu ar **lefel Genedlaethol neu Sylfaen**.

Mae'r **Cymwysterau Ategol** yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd. Mae angen tri chymhwyster TGAU arall hefyd, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth. Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, rhaid ennill gradd A*-C ym mhob un o'r pum Cymhwyster Ategol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni Bagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid ennill gradd A*-G yn y Cymwysterau Ategol.

## Cymhwyster Baglor-iaeth Genedlaethol a Sylfaen Cymru:

**Mae'r Bagloriaeth Sylfaen Cymru yn cymhwyster lefel 1 gyda'r graddau Pas* neu Pas.**

**Mae'r Bagloriaeth Genedlaethol Cymru yn cymhwyster lefel 2 gyda graddau A* - C , fel TGAU arferol.**

Bydd y cymhwyster hyn yn rhoi dilyniant naturiol ar gyfer y cwrs ôl-16 Bagloriaeth Uwch Cymru.




Bagloriaeth

# What is the New Welsh Baccalaureate?

Welsh Bac.

The central focus of the Welsh Baccalaureate at Key Stage 4 is to provide a vehicle for 14-16 year olds to consolidate and develop essential and employability skills. The qualification will help learners to prepare for their future by developing skills, attributes and behaviours valued by post-16 educators and potential employers.

Through the Welsh Baccalaureate learners will raise their skills levels and confidence, enabling and empowering them to take their place as responsible and active citizens within a diverse society. Alongside and through the development of skills, the Welsh Baccalaureate provides learners with the opportunity to develop their knowledge and understanding of society, the community in which they live and an awareness of global issues, events and perspectives.

## What is the course content?

The Welsh Baccalaureate is based on a **Skills Challenge Certificate** alongside **Supporting Qualifications**. The requirements of both the Skills Challenge Certificate and Supporting Qualifications must be met in order to achieve the overarching Welsh Baccalaureate.

The **Skills Challenge Certificate** consists of four components which are followed by all learners:

- Individual Project (50%)
- Enterprise and Employability Challenge (20%)
- Global Citizenship Challenge (15%)
- Community Challenge (15%)

The combined outcomes of the four components will determine whether the Skills Challenge Certificate is awarded at **National or Foundation level**. The four components of the Skills Challenge Certificate are internally assessed

The **Supporting Qualifications** include two mandatory GCSEs of English Language or Welsh Language together with Mathematics-Numeracy. A further three GCSEs are also required, of which two may be of equivalent qualifications.
To meet the National Welsh Baccalaureate requirements all five of the Supporting Qualifications must be achieved at grades A*-C. Similarly, for the Foundation Welsh Baccalaureate the Supporting Qualifications must be achieved at grades A*-G.

## The National and Foundation Welsh Baccalaureate Qualification:

**The Foundation Welsh Baccalaureate is a level 1 qualification which is graded Pass* or Pass.**

**The National Welsh Baccalaureate is a level 2 qualification which is graded A* - C , just like a normal GCSE.**

This qualification will give natural progression to the post-16 Advanced Welsh Baccalaureate course.




Welsh Bac.

Cymraeg

# Cymraeg

The pupils who are in the Welsh medium classes will study GCSE Welsh language and literature or entry level Welsh.

This course encourages pupils to cultivate the importance of the Welsh language and culture, and using the Welsh language in the workplace, such as, business, public services, education and the media.

Mae disgyblion sydd yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn astudio ar gyfer arholiadau TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth neu Llwybrau Mynediad.

Rhoddir pwyslais ar ysgrifennu'n gywir gyda golwg ar alluogi'r plant i ddefnyddio'r iaith mewn cyweiriau gwahanol - i gyflwyno gwybodaeth, i fynegi barn ac i ysgrifennu personol/dychmygus. Ceir hefyd pwyslais ar waith llafar er mwyn galluogi disgyblion i fynegi eu hunain yn gywir ac yn hyderus a cheisir hybu diddordeb mewn darllen.

Yn ogystal ceisir sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o werth yr iaith a'r diwylliant Cymreig ac yn cyfrannu iddo ar lefel leol a chenedlaethol. Anelir at baratoi'r disgyblion gogyfer â byd sy'n galw'n gynyddol am ddefnydd o'r iaith Gymraeg mewn busnes, gweinyddu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r cyfryngau.

**Crynodeb o'r Asesu:**
**Asesiad dan Reolaeth Llafar:** 30% o'r cymhwyster
**Darllen ac ysgrifennu - Disgrifio, Naratif ac Esbonio:** 35% o'r cymhwyster; arholiad allanol 2 awr
**Darllen ac ysgrifennu - Trafod, Persawâd a Chyfarwyddiadol:** 35% o'r cymhwyster; arholiad allanol 2 awr

Gellir parhau i astudio Cymraeg hyd at Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch ym Mlynyddoedd 12 ac 13.

Focus is put on writing correctly, enabling pupils to use the language to present information, express their thoughts and write imaginatively. Also emphasis is put on oral work in order for pupils to communicate and give their opinions.

**Summary of Assessment:**
**Oral Controlled Assessment:** 30% of final qualification
**Reading and Writing: Description, narrative and explanation texts:** 35% of final qualification
External examination 2hrs
**Reading and Writing—Discussion, persuasive and instruction texts:** 35% of final qualification
External examination 2hrs

# Welsh 2nd language

All pupils who have studied Welsh as a Second Language will continue with the National Curriculum programme to prepare them for the Key Stage Four GCSE Full Course. These will be based on the three profile components i.e. oral, reading and writing.

The aim of each component is to develop pupils' skills in order to be able to communicate effectively, to foster a positive attitude towards the language and culture and respond to various stimuli. They will read a range of materials in order to understand, respond and gather information and learn to write effectively in order to convey meaning, information, opinion, feeling and imagination.

There is a growing need for people with a knowledge of Welsh in administration, business, social services, education and media posts in Wales.

**Summary of Assessment:**
**4 units—25% each**
**Listening and oral—** external oral exam
**Oral and Listening—**external oral exam
**Reading and writing—**external exam
**Writing and reading—**external exam

Welsh 2nd lang

# English

Mae Saesneg yn bwnc gorfodol gan ei fod yn gymhwyster hanfodol i nifer o swyddi ac i bob sefydliad addysg uwch. Cydnabyddir gwerth y pwnc cymhleth hwn a'i gyfraniad tuag at hunan-ddatblygiad.
Dechreua Cyfnod Allweddol 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn Saesneg, a Llenyddiaeth Saesneg i gryn nifer o ddisgyblion ym mlwyddyn 10.
Maent yn ddau arholiad gwahanol, ac os bydd yr ymgeisydd yn llwyddiannus yn y ddau enillir dwy dystysgrif.

**Saesneg: Bydd disgyblion yn sefyll papurau arholiad un haen.**
Mae 80% o'r marciau yn dibynnu ar berfformiad yr ymgeisydd mewn dau arholiad i'w sefyll ar ddiwedd blwyddyn 11.
Mae 20% o'r marciau yn dibynnu ar asesiad rheoledig llafar a wneir yn ystod blynyddoedd 10 ac 11. Mae rhain yn cynnwys cyflwyniad unigol a thrafodaeth grŵp.

**Llenyddiaeth Saesneg:** Mae'r ddau arholiad yn cynnig 75% o'r marciau a'r ddau asesiad dan reolaeth 25%. Ceir dewis eang o destunau ond mae astudio barddoniaeth, rhyddiaith a drama, cyn ac ar ôl 1900, nawr yn orfodol.

Bydd llwyddiant yn y ddau bwnc yn sicrhau derbyniad i gwrs Lefel'A', ac mae llwyddiant yn hwn yn cael ei gydnabod fel sylfaen gref i nifer o alwedigaethau: er enghraifft, y Gyfraith, Cyfrifeg, Dysgu, Nyrsio, Llyfrgellyddiaeth, Gwaith Cyfryngau a'r Gwasanaeth Sifil.

English is a compulsory subject as it is an essential qualification for many occupations and for entry to all establishments of higher education. The value of this complex subject and its contribution towards self-development remain unchallenged.
Year 10 marks the beginning of Key Stage 4 of the National Curriculum in English, and for many pupils, English Literature. They are separate examinations, and, should the candidate be successful, two certificates are awarded.

**English: Candidates are entered for one tier.**
80% of the marks depend on the candidate's performance in two examinations to be taken at the end of course in year 11.
20% of the marks depend on oracy controlled assessments undertaken during years 10 and 11. These include individual presentation and group discussion.

**English Literature:** The two examinations carry 75% of the marks, and two controlled assessments 25%. There is a wide choice of texts, but the study of poetry, prose and drama from pre-and post-1900 is now compulsory.

Passes in both these subjects allow entry to a well-established A-Level course, success at which is recognised as a firm basis for many professions: Law, Accountancy, Teaching, Nursing, Librarianship, Journalism, Media Work and the Civil Service being examples.

Mathemateg

# Mathemateg



Erbyn Blwyddyn 10 bydd disgyblion wedi astudio Mathemateg fel y nodir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a rhoddir lefelau Asesiad Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ym Mlwyddyn 9.

Ers mis Medi 2015, mae pob disgybl yn sefyll cwrs Mathemateg newydd:

- **Rhifedd TGAU**– cwestiynau sy'n seiliedig ar fathemateg mewn bywyd bob dydd.
- **Mathemateg TGAU**— sy'n seiliedig ar fathemateg mwy traddodiadol a bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dilyn y TGAU hwn.

Asesiad o'r ddau gymhwyster yn cynnwys dau bapur ysgrifenedig, papur di-gyfrifiannell ac un papur gyda cyfrifiannell (cyfwerth 50% yr un), gyda **3 haen mynediad—Uwch, Canolradd a Sylfaenol.** **Bydd yr holl bapurau yn cael eu sefyll ym Mlwyddyn 11, naill ai ym mis Tachwedd neu fis Mehefin.**

Mae Mathemateg yn gymhwyster angenrheidiol ar gyfer mynediad i brifysgol a cholegau addysg yn ogystal â bod yn gymhwyster gofynnol

# Mathematics

By Year 10, pupils will have studied Maths as specified in the National Curriculum, with Teacher Assessment levels awarded at the end of Key Stage 3 in Year 9.

Since September 2015, all pupils must follow the new Mathematics course:

- **Numeracy GCSE** - questions based on mathematics in everyday life.
- **Mathematics GCSE** - based on more traditional mathematic questions and most of the pupils will follow this GCSE.

Assessment of both qualifications involves two written papers, a non-calculator paper and a calculator paper (each worth 50%), with **3 tiers of entry - Higher, Intermediate and Foundation.** **All papers will be sat in Year 11, either in November or June.**

Mathematics is an essential qualification for entry into University and Colleges of Higher Education, as well as being a required qualification for many occupations.



Mathematics

# Addysg Grefyddol

# Religious Education

Add. Gref

Mae gan Addysg Grefyddol le amlwg yng Nghwricwlwm yr ysgol. Er nad yw'r pwnc yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'r gyfraith yn nodi bod rhaid i ysgolion ei ddysgu i bob disgybl.

**Amcanion Cyffredinol**

Mae'r cwrs yn darparu cyfle i fyfyrwyr i :

1. Sicrhau gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth o gredoau, gwerthoedd a thraddodiadau un neu ragor o grefyddau;
2. Ystyried dylanwad credoau, gwerthoedd a thraddodiadau a gysylltir ag un neu ragor o grefyddau;
3. Ystyried ymatebion crefyddol ac ymatebion eraill i faterion moesol;
4. Nodi, ymchwilio ac ymateb i gwestiynau sylfaenol bywyd, cwestiynau a godir gan brofiad crefyddol a dynol, yn cynnwys cwestiynau am ystyr a phwrpas bywyd;

**Cwrs byr**

**Cynnwys y Cwrs:**

Mae'r cwrs yn cynnwys 4 uned.

Uned 1—Cristnogaeth
Uned 2—Iddewiaeth
Uned 3— Daioni a Drygioni
Uned 4— Bywyd a Marwolaeth

**Crynodeb o'r Asesu**

Bydd disgyblion yn sefyll UN papur 2 awr ar ddiwedd blwyddyn 11. Bydd y papur arholiad yn cynnwys cwestiynau strwythuredig ac fe fydd cyfle i ymgeiswyr ysgrifennu'n estynedig.

**Cwrs Llawn (Unedau'r cwrs byr a 4 uned ychwanegol)**

**Cynnwys y cwrs:**

Uned 1—Credoau ac arferion Cristnogaeth
Uned 2—Credoau ac arferion Iddewiaeth
Uned 3— Perthnasoedd
Uned 4—Hawliau Dynol

Bydd disgyblion yn eistedd dau arholiad. Un ym mlwyddyn 10 (50%) a'r llall ym mlwyddyn 11 (50%). Bydd pob papur yn para dwy awr.

Religious Studies is an important and valued part of the school's curriculum. Although the subject is not a part of the National Curriculum, the law states that all pupils are to receive instruction in this area.

**General Aims**

Pupils are given the opportunity to:

1. Develop a knowledge and understanding of the creeds, values and traditions of one or more world religions;
2. Consider the effects of creeds, values and traditions associated with one or more religions;
3. Consider religious and non-religious points of view on moral issues;
4. Note, research and form an opinion about basic major questions posed by human and religious experience, including the nature and purpose of life;

**Short Course**

**Course Content:**

The course consists of 4 units.

Unit 1—Christianity beliefs and practices
Unit 2—Judaism beliefs and practices
Unit 3 – Good and Evil
Unit 4 – Life and death

**The Assessment:**

Pupils will sit ONE paper 2 hours at the end of Year 11. The exam paper will contain structured questions and pupils are expected to write extended answers

**Full Course (Short course units plus an additional 4)**

**Course content**:

Unit 1—Christianity beliefs and practices
Unit 2—Judaism beliefs and practices
Unit 3—Relationships
Unit 4—Human Rights

Pupils will sit two papers. One in year 10 (50%) and another in year 11 (50%). Each paper will last two hours.

Religious Ed.

Gwyddoniaeth

# TGAU CBAC Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth Dwyradd

## Gwobr Drifflyg: Bioleg, Cemeg, Ffiseg (3 TGAU)— opsiynol - Haen uwch a Haen sylfaenol ar gael

Mae'r gwobr drifflyg yn gyfle i fyfyrwyr sy'n â ddiddordeb mewn Gwyddoniaeth ac yn edrych am yrfa sy'n cynnwys gwyddoniaeth. Bydd myfyrwyr yn derbyn 5 gwers y pythefnos ym mhob pwnc, Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Bydd arholiadau allanol ar ddiwedd blwyddyn 10 (Uned 1) a blwyddyn 11 (Uned 2) ym mhob pwnc, yn gyfwerth 45% o'r cymhwyster. Bydd cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig, ysgrifennu estynedig a chwestiynau ymateb i ddata gyda rhai ohonynt wedi'u gosod mewn cyd-destun ymarferol.
Bydd yr asesiad ymarferol (Uned 3) ym mis Chwefror blwyddyn 11—un asesiad ym mhob pwnc, gwerth 10% yr un.

## Pwnc Craidd: TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd (2 TGAU) - Haen uwch a sylfaenol ar gael

I'r myfyrwyr ni fydd yn dewis y wobr drifflyg bydd rhain yn gorfod dilyn y cwrs TGAU newydd Gwyddoniaeth Dwyradd, sydd â chydbwysedd y 3 gwyddoniaeth. Bydd y myfyrwyr sy'n astydio'r Gwyddoniaeth dwyradd dal yn gallu dilyn cyrsiau lefel A Bioleg, Cemeg neu Ffiseg yn dibynnol ar y graddau terfynnol yn y TGAU. Bydd myfyrwyr yn derbyn 10 gwers bob pythefnos.

Bydd arholiadau allanol ar ddiwedd blwyddyn 10 yn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gyda bob arholiad yn gyfwerth 15%. Ym mlwyddyn 11 bydd bob myfyrwr yn sefyll 3 arholiad allanol arall, un ym mhob pwnc gyfwerth 15%, gyda asesiad ymarferol ym mis Ionawr/Chwefror blwyddyn 11, sy'n gyfwerth 10%. Bydd bob papur arholiad ac asesiad ymaferol yn cael eu marcio'n allanol.

Mae astudio TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd yn gweithredu fel sail ar gyfer deall y byd materol. Mae dealltwriaeth wyddonol yn newid ein bywydau ac mae'n hanfodol i ffyniant y byd yn y dyfodol. Dylid addysgu pob dysgwr felly yn yr agweddau hanfodol ar y wybodaeth, dulliau, prosesau a defnyddiau o wyddoniaeth. Dylid helpu'r dysgwyr i werthfawrogi sut y gellir disgrifio ffenomenau cymhleth ac amrywiol y byd naturiol yn nhermau nifer bach o syniadau allweddol yn ymwneud â'r gwyddorau sy'n rhyng-gysylltiol ac i'w cymhwyso'n gyffredinol. Ymhlith y syniadau allweddol hyn mae:

- defnyddio modelau a damcaniaethau cysyniadol i wneud synnwyr o'r amrywiaeth ffenomenau naturiol dan sylw
- y rhagdybiaeth bod mwy nag un achos i bob effaith
- bod gwahaniaethau rhwng gwrthrychau a systemau gwahanol yn gyrru newid wrth ryngweithio
- bod llawer o ryngweithiadau o'r fath yn digwydd dros bellter heb gyswllt uniongyrchol
- bod gwyddoniaeth yn symud drwy gylch o ragdybiaeth, arbrofi ymarferol, arsylwi, datblygu damcaniaethau ac adolygu
- bod dadansoddi meintiol yn elfen ganolog mewn llawer o ddamcaniaethau ac mewn dulliau ymholi wyddonol.

Gwyddoniaeth

# WJEC GCSE Biology, Chemistry, Physics and Science Double Award

Science

## Triple Award:

### Biology, Chemistry, Physics (3 GCSE's) - Optional – Higher and foundation tiers available

The triple award is a real opportunity for students who are interested in science and are looking forward to a career, which involves science. Students will have 5 lessons a fortnight in each subject, Biology, Chemistry and Physics. The course has external examinations at the end of year 10 (Unit 1 ) and 11 (Unit 2) in each subject -45%. A mix of short answer questions, structured questions, extended writing and data response questions with some set in a practical context.
The practical assessment (Unit 3) will be in February of the final year-one practical per subject-10%.
All external examinations and practical assessment will be marked externally.

## Core Subject:

### Double Award Science (2 GCSE'S) - Higher and foundation tiers available

All students who do not opt for the triple award option will have to study the new GCSE double award, which is a balance of all 3 sciences. Students who study the double award will still be able to access A level courses in Biology, Chemistry and Physics, depending on their final grade. Students will have 10 lessons per fortnight.

The course has examinations at the end of year 10 in Biology, Chemistry and Physics, with each exam—15%. In year 11 each student will sit 3 further exams, one in each science —15%., with a practical assessment in January/February of year 11—10%. All external exams and assessment are marked externally.

Studying GCSE Science provides the foundations for understanding the material world. Scientific understanding is changing our lives and is vital to the world's future prosperity, and all learners should be taught essential aspects of the knowledge, methods, processes and uses of science. They should be helped to appreciate how the complex and diverse phenomena of the natural world can be described in terms of a small number of key ideas relating to the sciences which are both inter-linked, and are of universal application. These key ideas include:

- the use of conceptual models and theories to make sense of the observed diversity of natural phenomena
- the assumption that every effect has one or more cause
- that change is driven by differences between different objects and systems when they interact
- that many such interactions occur over a distance without direct contact
- that science progresses through a cycle of hypothesis, practical experimentation, observation, theory development and review
- that quantitative analysis is a central element both of many theories and of scientific methods of inquiry.

The course has examinations at the end of Year 10 in Biology, Chemistry and Physics, with each exam counting for 15%. In Year 11 each student will take another 3 exams in each sciene-15%, with a practical assessment in January/February of Year 11-10%. All exams are marked externally.

Science

# Bwyd a Maeth

Mae TGAU Bwyd a Maeth yn rhoi'r cyfle i weithio gyda bwyd ac ehangu sgiliau ymarferol a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o fwyd a maeth.
Mae cynnwys y manyleb wedi rhannu i 6 ardal craidd sydd yn gydberthyn ble bynnag bosib:

- Nwyddau bwyd
- Egwyddorion maeth
- Deiet ac iechyd da
- Gwyddor bwyd
- O ble daw bwyd
- Coginio a pharatoi bwyd

Mae Bwyd a Maeth yn bwnc ymarferol. Mae'r disgyblion yn datblygu ac arddangos eu paratoadau bwyd a sgiliau trin bwyd trwy weithgareddau ymarferol, tra yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a dealltwriaeth o'r testunau.

| **Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth (40%)**<br>**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud** |
|---|
| Un papur allanol sydd wedi targedu ar gyfer ystod llawn o raddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys atebion byr, strwthuredig a cwestiynau sydd angen gwybodaeth o bob ardal y manyleb gan asesu'r safon y cyfathrebu ysgrifenedig. |
| **Uned 2: Bwyd a Maeth ar Waith (60%)**<br>**Asesiad o dan reolaeth** |
| **Tasg 1:** Asesiad Ymchwiliad Bwyd<br><br>(20% o'r gymhwyster— 40 marc a ddyrannwyd)<br>Hyd: 10 awr i ddechrau yn hanner olaf tymor yr haf<br>wedi'i asesu'n fewnol yn defnyddio meini prawf CBAC a'i safoni'n allanol<br><br>**Tasg 2**: Asesiad Paratoi Bwyd<br><br>(40% o'r gymhwyster— 80 marc a ddyrannwyd)<br>I ddechrau yn nhymor yr Hydref Blwyddyn 11<br>wedi'i asesu'n fewnol yn defnyddio meini prawf CBAC a'i safoni'n allanol |



Bwyd a Maeth

# Food and Nutrition



Food and Nutrition will give an opportunity to work through the medium of food to extend practical skills and develop knowledge and understanding of Food and Nutrition.
The specification content is divided into six compulsory areas of study which must be interrelated whenever possible.

- Food Commodities
- Principles of Nutrition
- Science of Food
- Diet and Good Health
- Where food comes from
- Cooking and food preparation

Food and Nutrition is a practical subject. Pupils develop and demonstrate their food preparation and handling skills through practical activities, whilst applying relevant knowledge and understanding of the topic areas.

| **Unit 1: Principles of Food and Nutrition (40%)**<br>**Written Paper: 1½ hours** |
|---|
| One paper which will be externally set and marked, targeted at the full range of GCSE grades. The paper will contain short-answer, structured and free response questions drawn from all areas of the specification and will assess the quality of written communication. |
| **Unit 2: Food and Nutrition Practical Tasks (60%)**<br>**Controlled Assessment** |
| **Task 1:** Food Science Investigation<br><br>(20% of qualification – 40 marks allocated)<br>Duration: 10 hours to commence in the latter half of summer term.<br>Internally assessed using WJEC set criteria and externally moderated.<br><br>**Task 2:** The Food Preparation Investigation, theme set by WJEC.<br><br>(40% of qualification – 80 marks allocated)<br>To commence in Year 11, Autumn term.<br>Internally assessed using WJEC set criteria and externally moderated. |

Food & Nutrition

# Tecstiliau

Mae'r cwrs Technoleg Tecstiliau yn cynnig cyfle i ddisgyblion nodi a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion ffabrig mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau sy'n ymwneud â'u diddordebau personol. Mae Dylunio a Thechnoleg yn ei hanfod yn weithgaredd ymarferol sy'n gofyn am gyfuno sgiliau gyda gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dylunio a gwneud cynhyrchion o safon. Y bwriad yw meithrin gallu dylunio a thechnolegol disgyblion trwy osod sialensau dylunio a thasgau ymarferol.

## Cynnwys Y Fanyleb

Datblygu, cynllunio a chyfleu syniadau gwreiddiol
Defnyddio offer a chyfarpar yn dechnegol gywir
Deall priodweddau defnyddiau a chydrannau
Gwerthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd a materion deddfwriaethol
Dadansoddi gwaith dylunwyr ffasiwn a thecstil eraill
Datblygu ymwybyddiaeth o arferion gweithgynhyrchu masnachol
Defnyddio TGCh, CAD a CAM lle'n briodol

Mae cwrs Blwyddyn 10 yn Aberaeron wedi ei gynllunio yn gyfres o brosiectau ymarferol sy'n integreiddio egwyddorion y pwnc gyda phrofiadau gwneud sy'n meithrin sgiliau'r maes arbenigedd. Bydd disgyblion hefyd yn cynhyrchu llyfr braslunio fel rhan o'u profiad dylunio. Bydd gwaith blwyddyn 11 yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer yr unedau asesu.

## Asesu:

### Uned 1: Papur Ysgrifenedig 2 awr (50% o'r cymhwyster)

Un papur a gaiff ei osod a'i farcio yn allanol, wedi'u dargedu at yr ystod lawn o raddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau sy'n galw am atebion ffeithiol byr, a rhai sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig er mwyn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth

### Uned 2: Tasg Dylunio a Gwneud - Asesiad di-arholiad:tua 35 awr(50% o'r cymhwyster)

Tasg dylunio a gwneud ddwys, yn seiliedig ar her gyddestunol
a osodir gan CBAC, sy'n asesu gallu ymgeiswyr i:

- nodi, ymchwilio, dadansoddi ac amlinellu posibiliadau dylunio
- dylunio a gwneud prototeipiau a gwerthuso eu haddasrwydd i'r pwrpas

Tecstiliau

# Textiles



The Textiles Technology course offers an opportunity for pupils to identify and solve real problems by designing and making fabric products in a wide range of contexts relating to their personal interests. Design and technology is essentially a practical activity involving the combination of skills with knowledge and understanding in order to design and make quality products. It is intended to develop pupils' design and technological capability through a variety of design challenges and practical activities

## Specification Content

Developing, planning and communicating original ideas
Technically accurate use of tools and equipment
Understanding the properties of materials and components
Appreciate the importance of sustainability and legislative Issues
Analysing the work of other fashion and textile designers
Developing an awareness of commercial manufacturing practices
Using ICT, CAD and CAM when appropriate

The year 10 course at Aberaeron has been planned as a series of practical activities which integrate subject theory with making experiences that promote the focus area's skills. Pupils will also keep a sketchbook as part of their design experience. Year 11 will be dedicated to preparation for the assessment units.

## Assessment:

### Unit 1: Written paper 2 hours (50% of the qualification)

One paper which is externally set and marked, targeted at the full range of GCSE grades. The paper will contain short structured questions, and an extended question based on the work of a designer and design tasks.

### Unit 2: Non-exam assessment: approximately 35 hours (50% of qualification)

A sustained design and make task, based on a contextual challenge set by WJEC, assessing candidates' ability to:

- identify, investigate, analyse and outline design possibilities
- design and make prototypes and evaluate their fitness for purpose.

Textiles

Adeiladwaith

# Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig

## - CBAC L1/2 Gwobrau

### Prif nodweddion y cwrs

Yr hyn mae'n ei gymryd i fod yn oruchwyliwr llwyddiannus safle, rheolwr prosiect, amcangyfrifydd neu grefftwr? Gyda'r sector ad-eiladu'r D.U. yn tyfu , mae'r diwydiant adeiladu yn cynnig cyfleoedd cyffrous. Mae hefyd yn gofyn am amrywiaeth o sgiliau fel rhifedd, sgiliau technegol, creadigrwydd a chyfathrebu, yn og-ystal â sgiliau crefftau traddodiadol.

### Uned 1: Diogelwch a Diogeledd mewn Adeiladu.

A yw gweithio yn y diwydiant adeiladu yn beryglus? Gall rhai cyfarpar ac offer yr wyf yn eu defnyddio greu niwed? Mae rhai o'r offer rwy'n eu defnyddio yn ddrud: sut ydw i'n cadw'n ddiogel? Sut ydw i'n gwneud yn siŵr fy mod yn ddiogel wrth weithio gydag offer trydanol a mecanyddol? A oes canllawiau y gallaf eu dilyn i wneud yn siŵr fy mod yn ddiogel pan fyddaf yn gwneud tasgau? Gyda phwy y gallaf ddibynnu i fy nghadw i'n ddiogel? Beth ddylwn i ei wneud gyda deunyddiau gwastraff? Oes angen i mi feddwl am bwy sy'n cael gweld dyluniadau a manylebau rwy'n ei roi wrth weithio? Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau pwysig i unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith adeiladu.

Mae gwybod am beryglon posibl sy'n gysylltiedig â phrosesau adeiladu yn fan cychwyn gweithio'n ddiogel. Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu sut i chwilio am ac yn nodi peryglon i ddiogelwch a sicrwydd. Byddwch yn dysgu sut i fesur risg o'r peryglon hyn fel y gallwch gynllunio ffyrdd y gallwch leihau'r risg a gweithio'n ddiog-el ac yn saff, beth bynnag yw eich rôl neu leoliad.

Bydd eich dealltwriaeth o'r uned hon yn cael ei asesu ar ddiwedd Blwyddyn 10 trwy arholiad un awr ar sgrin.

### Uned 2: Adeiladu Sgiliau Ymarferol

Sut ydw i'n hongian drws? Alla i sgimio bwrdd plastr? Sut ydych chi'n peintio drws panel? Pa adnoddau sydd eu hangen arnaf i adeiladu wal? Sut ydw i'n gcynllunio beth sydd angen ei wneud? A fyddaf yn ddiogel? Sut ydw i'n cadw offer yn ddiogel? Sut ydych chi'n gwybod os yw'r hyn a wnaed yn ddigon da?

Drwy'r uned hon, byddwch yn gallu dehongli gwybodaeth dechnegol ar gyfer cynllunio adnewyddu adeilad, gan ystyried materion iechyd a diogelwch. Byddwch yn defnyddio sgiliau a thechnegau priodol i wneud y gwaith ailwampio. Asesir yr uned hon drwy edrych arnoch chi yn dangos eich gallu cynllunio a'ch gallu wrth gyflawni tasgau ymarferol.

### Uned 3: Cynllunio Prosiectau Adeiladu.

Pwy sy'n gwneud beth wrth adnewyddu eiddo, adeiladu adeil-adau newydd neu wella amgylchedd adeiledig? Pa mor hir y mae datblygiad adeiladu yn ei gymryd? A oes angen rheolwr prosiect? Pwy sy'n rheolwr prosiect? Beth all atal prosiect adeiladu rhag bod yn llwyddian-nus?

